TAFLEN GWYBODAETH AM Y CWRS

# City & Guilds Gwobr City & Guilds mewn Asesu Cyflawniadau sy'n Gysylltiedig Â¢ Galwedigaethau Lefel 3



### Yn gryno

Os oes angen i chi asesu gwybodaeth a/neu sgiliau mewn meysydd pwnc cysylltiedig â galwedigaethau, ar gyfer cymhwyster neu fel arall, bydd y cwrs hwn yn eich helpu i wella eich defnydd o amryw ddulliau, gan gynnwys asesiadau mewn amgylcheddau efelychiedig, profion sgiliau, cwestiynau llafar ac ysgrifenedig, aseiniadau, prosiectau ac astudiaethau achos. Mae'r cwrs yn debyg iawn i'r cwrs y cyfeiriwyd ato fel Dyfarniad D32/33 neu A1.

### Mae'r cwrs hwn ar gyfer...

... unrhyw un sy'n asesu ymgeiswyr mewn gweithdai hyfforddiant, ystafelloedd dosbarth neu amgylcheddau dysgu eraill.

### Cynnwys y cwrs

Mae'r cwrs yn rhoi cyfle i ddysgwyr ddatblygu a gwella eu sgiliau asesu wrth ennill cymhwyster proffesiynol. Fe'i ddatblygwyd ar gyfer unrhyw un sy'n gweithio yn y meysydd dysgu

achrededig a dysgu heb ei achredu, yr NQF a'r FfCCh.

Bydd dysgwyr yn ymgymryd ag un uned theori sy'n ystyried eu gwybodaeth o egwyddorion ac arferion asesu ac un uned ymarferol sy'n ymdrin â pha mor dda y maent yn asesu cyflawniadau galwedigaethol pobl eraill. Bydd y cymhwyster yn cael ei farnu'n rhannol ar asesiadau a arsylwyd ar gyfer dau ddysgwr go iawn ar ddau achlysur yn erbyn safonau/meini prawf cymeradwy.

Ar gyfartaledd, mae'r cymhwyster hwn yn cymryd hyd at 6 mis ac yn cael ei asesu drwy gyfuniad o bortffolio - bydd angen i ddysgwyr ddarparu tystiolaeth i brofi bod y cymhwysedd ganddynt i fodloni safonau'r NVQ; a thrwy arsylwi - mae'r aseswr yn profi eu gwybodaeth, eu dealltwriaeth a'u perfformiad i sicrhau eu bod yn gallu dangos cymhwysedd mewn asesu.

**Gofynion Mynediad**

Nid oes unrhyw ofynion mynediad ffurfiol.

**Gwybodaeth Ychwanegol**